

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Hydref 6ed, 2016 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Margaret Griffith; Trefor W Jones; Ifor Wyn Davies; Alwen Evans; Anwen Jones; Tegid Jones; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones; Elis Gwyn Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.: Y Cyngorwyr William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans a Naomi Jones.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fedi 1af, 2016.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned; gohebiaeth ynghylch Torri Gwair Gwledig, Pont Rhydybenllyg B4411, Lôn rhwng Groeslon Castellcoed a Llanarmon, Pencaenewydd/Sardis. Penderfynwyd derbyn.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif C16/1071/41/LL – Cais i ddymchwel estyniad cefn presennol a chodi ystafell haul yn ei le; Tan y Buarth Bryn Bachau, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

2. Cais Rhif C16/1072/41/LL – Cais ar gyfer cynyddu'r nifer o unedau teithiol o 30 i 40 o fewn cyffiniau'r safle, gwelliannau amgylcheddol, ymestyn trac mynediad, estynnu'r bloc toiledau presennol a darparu ystafell chwaraeon; Llwyn Bugeilydd, Ffordd Caernarfon, Cricieth. Cefnogwyd.

3. Cais Rhif C16/1148/41/LL – Ail gyflwyniad o gais blaenorol a wrthodwyd (rhif C15/1286/41/LL) i drosi ag ymestyn adeilad allanol presennol i ddefnydd fel uned gwyliau; Pont y Felin, Glanywern, Chwilog. Penderfynwyd gwrthwynebu achos problemau parcio am fod y ffordd yn gul a gallai amharu ar y gymdogaeth.

4. Cais Rhif C16/1154/41/LL – Dyluniad diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd o dan C16/0705/41/LL i drosi adeilad allanol i ddy fforddiadwy 4 llofft; Penarth Fawr, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi ac anfon y sylw bod y Cyngor yma yn siomedig bod pobl leol yn cael eu gwrthod ar eu tir eu hunain ac yn defnyddio adeiladau sydd yna'n barod.

5. Cais Rhif C16/1067/41/LL – Cais i osod porth ar fynedfa a newidiadau allanol i rai agoriadau; Hafan y Môr Holiday Park, Chwilog. Cefnogwyd.

6. Cais Rhif C16/1189/41/LL – Cais i godi estyniad; 1 Tai Newyddion, Rhoslan. Penderfynwyd cefnogi.

7. Cais Rhif C16/1062/41/LL – Cais i godi modurdy a stabl; Ty'n y Fron, Llangybi. Cefnogwyd.

**7. Materion yn y gymuned.**

Llanarmon/Llanystumdwy

Cwyn gan drethdalwyr am sbwriel yn hedfan o loriau ail gylchu ac yn creu llanast ar ochrau'r ffyrdd yn ardal Llanystumdwy a loriau ail gylchu yn cael eu gyrru'n wyllt yn ardal Llanarmon. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd yn tynnu eu sylw at hyn.

#### Rhoslan

Adwy wedi ei hagor gyferbyn â'r ffordd sydd yn troi am Dyddyn Du a Thyddyn Gwyn. Penderfynwyd anfon at Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn gofyn oes angen caniatâd i wneud hyn a'i bod yn agos i dro yn y ffordd ac yn creu perygl.

Chwilog.

Diweddarau ynghylch y parcio ochr Capel Siloh. Cysylltwyd gyda'r Heddlu sydd am gadw golwg ar y sefyllfa. Derbyniwyd.

#### Pencaenewydd/Sardis

##### Llangybi

1. Diweddarau ynghylch llwybr Pont Merchaid. Cysylltwyd gyda Chyngor Gwynedd i ofyn am arweiniad. Mae'r goeden oedd wedi syrthio ar draws y bont wedi cael ei chlirio, mae angen barbio ochr Ffynnon Cybi a thrafodwyd gosod arwyddion i ddangos union leoliad y llwybr. Penderfynwyd trafod ymhellach gyda'r Cyngor Sir.
2. Yr hysbysfwrdd ger yr ysgol. Mae'r hysbysfwrdd wedi pydru ac wedi cael ei symud o'r safle. Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynghylch y math o hysbysfwrdd sydd o flaen Capel Pencaenewydd; y Cynghorydd Ifor Wyn Davies i holi ac i drosglwyddo'r wybodaeth i'r Clerc.

##### Llanystumdwy

1. Cyflwr y bont yn y pentref a'r gwelediad. Mae dirywiad pellach wedi bod yng nghyflwr y bont. Penderfynwyd gofyn am gyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd. Mae'r gwelediad o'r ddau gyfeiriad yn cael ei amharu oherwydd coed wedi tyfu'n fawr. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Gyngor Gwynedd.
2. Mannau aros am y bws ym Mhenygroes, Llanystumdwy. Mae man aros i ddal bws i gyfeiriad Pwllheli ond does dim man aros swyddogol i gyfeiriad Cricieth. Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Gwynedd at hyn.
8. Cyflwr llwybr Clawdd Llanw o Bont Fechan i Ty'n Morfa. Mae angen gwaith tocio caled ar y llwybr. Penderfynwyd gofyn am brisiau i dri ymgwymerwr pan fydd y gwaith barbio tymhorol wedi cael ei gwblhau; Atkin Groundworks Ltd., Clifford Hughes a Criccieth Cleaning Ltd.
9. Tir y Cyngor gyferbyn â rhes tai Maenywern yn Llanystumdwy. Mae angen clirio caled yma hefyd a phenderfynwyd gofyn am brisiau i'r tri ymgwymerwr uchod gyda golwg ar chwistrellu ar ôl y clirio pan mae'n amser gwneud hynny.
10. Cae Chwarae Llangybi; un o'r swings yn beryg. Cafwyd adroddiad bod angen sylw brys i un o'r swings a gofynnwyd i Atkin Groundworks Ltd. ei hatgyweirio. Derbyniwyd.
11. Fferm solar Tyddyn Gwyn. Daeth llythyr yn dweud bod y gwaith ar y fferm solar ar fin dechrau. Derbyniwyd er gwybodaeth. Roedd cwyn leol eu bod yn defnyddio'r ffordd drwy Lanarmon yn ogystal â'r llwybr gytunwyd sef troi yn Lodge Trallwyn, drwy Bencaenewydd cyn troi yng Ngroeslon Tŷ Newydd. Penderfynwyd cysylltu gyda'r cwmni ynghylch hyn.
12. Cwyn ynghylch gwasanaeth iechyd tu allan i oriau. Daeth cwyn leol bod y gwasanaeth allan o oriau yn gorffen cyn i'r meddygfeydd agor eu llinellau ffôn yn y bore

sydd yn golygu bod amser yn cael ei golli mewn argyfwng. Penderfynwyd anfon cwyn at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

13. Comisiwn Ffiniau i Gymru; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, cynigion cychwynol. Penderfynwyd trafod hwn yng nghyfarfod mis Tachwedd.

14. Eluned Morgan AC, Aelod Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru; Arolwg Datblygu Cymunedol ac Economaidd y Canolbarth a'r Gorllewin. Gofynnwyd i'r Cadeirydd gwblhau'r arolwg.

15. Angen cynrychiolydd y Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Chwilog. Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Margaret Griffith.

16. Ciosgs BT yn y gymuned. Daeth llythyr oddi wrth BT drwy Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn gofyn am sylwadau ynghylch cael gwared o giosgs BT yn y gymuned; y ciosgs dan sylw yn Llanystumdwy, Rhoslan, Llangybi, Chwilog a Phencaenewydd. Ychydig iawn o ddefnydd wnaed o'r rhain dros y 12 mis diwethaf. Penderfynwyd peidio â gwneud sylw sef derbyn y bydd rhain yn cael eu symud.

### **Materion Ariannol.**

17. Archwiliad Ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016; derbyn adroddiad yr Archwilwyr Allanol. Penderfynwyd cymeradwyo a derbyn y ffurflen flynyddol. Y Broses Gyllidebu oedd yr Archwilwyr Allanol am dynnu sylw Cyngor Cymuned Llanystumdwy ato. Nid oedd y Cyngor wedi paratoi cyllideb ddigonol ac felly'n dangos potensial o ddiffyg rheolaeth ariannol dros wario a derbyn arian cyhoeddus ac roedd yn agored i'r risg o orwario. Dyma argymhellion yr Archwilwyr Allanol:

*Rhaid i'r Cyngor sicrhau yn y dyfodol bod cyllideb ddigonol yn cael ei pharatoi i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau ac i helpu'r rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid i'r Cyngor adolygu'r gyllideb yn rheolaidd, a rhaid sicrhau fod yr adolygiad hwn o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol yn cael ei gofnodi. Dylai'r Cyngor fonitro'r gyllideb o leiaf bob chwarter, neu'n amlach na hynny os oes angen.*

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith. Mae'r taflenni Rhybudd o Ganlyniad Archwiliad yn cael eu harddangos yn y manau arferol drwy'r gymuned ers Medi28ain,2016 ac mae'n ofynnol iddynt gael eu harddangos am o leiaf 14 diwrnod.

18. Derbyn y canlynol:

1. Ad daliad o £80- gan Un Llais Cymru achos bu rhaid i'r Cynghorydd Gwilym M Thomas dynnu nôl o fynd i gynhadledd Un Llais Cymru. Derbyniwyd.

19. Adroddiad ariannol ar lafar. Derbyniwyd.

20. Anfonebau angen eu talu

1. Cymorth Cynllunio Cymru; hyfforddiant i'r Cynghorydd Naomi Jones. Ar fyr rybudd bu rhaid i'r Cynghorydd dynnu nôl o fynd ar y cwrs yma ond bydd rhaid talu'r anfoneb o £30-,taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

2. Capel Pencaenewydd am gael defnyddio'r festri ar gyfer 3 cyfarfod o'r Cyngor. Disgwyl yr anfoneb. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ei dalu pan ddaw; £45-, taliad BACS.

3. Cyflog chwarterol y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM; £900- gross, cyflog net £720-, taliad siec, rhif 100939; Cyllid a Thollau EM £180-,taliad siec, rhif 100940.Penderfynwyd ei dalu.

4. Costau chwarterol y Clerc, £233.54c, taliad siec, rhif 100941. Penderfynwyd ei dalu.

21. Lwfansau i Gynghorwyr Cymuned a Thref.

Mae hawl gan gynghorau cymuned a thref i wneud taliad o uchafswm o £100- (ffigyrau presennol) i bob cynghorydd at gostau defnydd o ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati. Mae hawl gan gynghorau cymuned a thref i wneud taliadau o gostau teithio o 45c y filltir ar deithiau wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor. Penderfynodd y Cyngor dderbyn yr egwyddor.

\*Trwy ganiatâd y Cadeirydd

22. Cyngor Gwynedd

1. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Pwyllgor Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Y Cynghorydd Trefor Wyn Jones sydd yn cynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgor ac anfonwyd y wybodaeth ymlaen ato.

2. Deddf Rheoli Trafnidiaeth y Ffyrdd 1984- Adran 14(2) Wedi Ei Gywiro Gan Y Ddeddf Trafnidiaeth Ffordd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991; Cyngor Gwynedd – Ffordd Dosbarth 111, Pencaenewydd, Pwllheli, Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro. Derbyniwyd er gwybodaeth.

3. Adran Rheoleiddio, Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Technegydd Cludiant Gweithredol, lloches bws Pencaenewydd – Glasfryn. Mae angen gosod dau banel newydd ar y lloches bws ar draws y ffordd i Lodge Trallwyn. Penderfynwyd gofyn i Mr D E Williams, Llithfaen wneud y gwaith.

23. Cyngor Gwynedd - Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned

1. Cais Rhif C16/1217/41/LL – Ail gyflwyniad o gais a wrthodwyd o dan C16/0696/41/LL ar gyfer dymchwel estyniad presennol a chodi estyniad yn ei le; Swm yr Afon, 3 Pensingrig, Rhoslan. Dim gwrthwynebiad.

2. Cais Rhif C16/1213/41/LL – Dymchwel “lean- to” a ffenestri cromen a codi estyniadau blaen a cefn; Ty'n Rhos Penarth, Chwilog. Cefnogwyd.

24. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; taliadau/treuliau Cynghorwyr Cyngor Cymuned Llanystumdwy am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31ain, 2016.

Penderfynwyd derbyn y llythyr yn diolch am anfon gwybodaeth am y taliadau a wneir gan y Cyngor. Mae'r wybodaeth wedi'u harddangos drwy'r gymuned yn y manau arferol ac ar safle we'r Cyngor.

25. Adroddiad blynyddol ar gyflwr Cae Chwarae Llangybi. Yr unig beth oedd angen ei wneud eleni oedd atgyweirio un swing ar frys ac mae hynny wedi'i wneud yn barod; gweler cofnod rhif 10. Penderfynwyd derbyn.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

